# Agenda - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:
**Hybrid - Ystafelloedd Pwyllgora 1 a 2 a Chynhadledd Fideo drwy Zoom**
Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023
Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
**Naomi Stocks**
Clerc y Pwyllgor
0300 200 6565
SeneddPlant@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

### 2.1 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

(Tudalennau 1 - 2)

Dogfennau atodol:
Gwybodaeth ychwanegol gan TSANA yn dilyn y cyfarfod ar 7 Mehefin - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 1

### 2.2 A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?

(Tudalennau 3 - 5)

Dogfennau atodol:
Gwybodaeth ychwanegol gan Anabledd Cymru yn dilyn y cyfarfod ar 7 Mehefin - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 2 (Saesneg yn unig)

### 2.3 Blaenraglen Waith

(Tudalennau 6 - 7)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 3

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.4 Gwrandawiad cyn penodi Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

(Tudalennau 8 - 9)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Prif Weinidog - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 4

**2.5 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 10 - 11)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 5

**2.6 Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch**

(Tudalennau 12 - 14)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Brifysgolion Cymru - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 6

**2.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 15 - 17)

Dogfennau atodol:
Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol - CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 7

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod cyfan ar 14 Medi

(09.30)

## 4 Gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal: trafod diwygio radical - trafod ymateb Llywodraeth Cymru

(09.30 - 10.30) (Tudalennau 18 - 41)

Dogfennau atodol:
Ymateb Llywodraeth Cymru - CYPE(6)-21-23 - Papur

## 5 Sesiwn gynllunio strategol y Pwyllgor

(10.30 - 10.45)

**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 1**

TSANA
Cynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector
Third Sector Additional Needs Alliance

TSANA is facilitated by
Hwylusir TSANA gan
PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**Tystiolaeth gan Mudiad Meithrin / TSANA**

**Enw cyswllt: Menna Machreth, Prif Swyddog Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant**

**Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch dewisiadau ynghylch ADY cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr, ac yn benodol unrhyw rwystrau i ofal plant ac addysg sy'n wynebu plant ag ADY neu anableddau:**

1. O ran profiad rhieni a gofalwyr plant sydd ag ADY neu anableddau, teg dweud fod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn anghyson ac yn dibynnu ar ble mae'r plentyn wedi ei leoli. Rydym yn cefnogi galwadau diweddar Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plan Cymru bod angen:
    - *Yn unol ag Adran 63 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol 2018 Datblygu'r sail dystiolaeth a chyfrannu at gynllunio*
    - *adolygiad 5-mlynedd Gweinidogion Cymru o'r*
    - *ddarpariaeth ADY yn y Gymraeg., sicrhau bod pob awdurdod lleol wedi adolygu ei ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg cyn diwedd 2023.*
    - *Sicrhau bod proses adolygu'r ddarpariaeth ADY yn lleol yn cael ei defnyddio fel sail ar gyfer llunio a chyfeirio cynlluniau i gryfhau'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, boed hynny drwy'r CSCAau neu'r cynlluniau strategol.*
    - *Datblygu cynigion ar gyfer ffurfioli trefniadau cydweithio effeithiol rhwng awdurdodau lleol ar sail ranbarthol.*
    - *Ar sail adolygiadau lleol a chenedlaethol o'r ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg, arwain y broses o ddatblygu ymyriadau cenedlaethol mewn meysydd megis cynllunio'r gweithlu, adnoddau a dysgu proffesiynol.*

2. Yn ôl un rhiant o Bowys, mae derbyn triniaeth Gymraeg gan therapydd iaith yn loteri cod post. 'Rydym yn cael ei cosbi oherwydd lle rydyn ni'n byw,' meddai. Yn aml iawn, bydd rhieni a phlant yn gorfod gwneud penderfyniad anodd am ble fydd eu plentyn awtistig yn derbyn neu haddysg, ac yn aml mae'n rhaid iddynt roi'r plentyn mewn darpariaeth Saesneg. I un rhiant, roedd gorfod gwneud y penderfyniad hwnnw yn 'un o brofiadau mwyaf torcalonnus a dirdynnol fy mywyd…roedd hawl gan fy mab i gael addysg Gymraeg a Cymraeg oedd ei famiaith. Ar yr un pryd roedd angen addysg mwy arbenigol ganddo, felly bu'n rhaid iddo fynd i Ysgol Uwchradd cyfrwng Saesneg gydag uned arbennig. Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n brwydro dau ffrynt ar yr un pryd.' Yn yr achos hwn, llwyddodd y plentyn i barhau i siarad Cymraeg gyda'i deulu er fod cyfrwng ei addysg wedi newid, ond nid dyna'r stori i lawer o

deuluoedd ac mae'n peri poendod ychwanegol sy'n nacau hawl plant awtistig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg.

3. I riant yng Nghaerdydd, rhaid mynd i Abercynon i gael darpariaeth arbennig: 'Mae Dafydd* yn mynd i feithrinfa arbenigol yn Abercynon ar ddau bnawn yr wythnos ond un Saesneg yw hi. Does dim byd tebyg ar gael yn Gymraeg.' Mae'r methiant i gael addysg ADY trwy gyfrwng y Gymraeg yn aml yn teimlo fel baich ychwanegol i rieni â phlentyn awtistig, sy'n gorfod wynebu newid iaith y teulu o bosib am nad yw'r addysg ar gael yn y Gymraeg.
4. Profiad rhieni yw bod problemau llawer mwy amlwg o ran y ddarpariaeth iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg. Eto, mae angen llawer mwy o ymchwil i ddeall beth yw'r sefyllfa ar lawr gwlad. Gwyddom am blant (7-12oed) sy'n cael eu hasesu ar gyfer diagnosis ADHD ac Awtistiaeth dros Zoom drwy gyfrwng y Saesneg, er eu bod mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac mewn awdurdod lleol sydd â gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg ac mai prif iaith y plentyn yw'r Gymraeg. Eto, mae angen gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd er mwyn deall pam fod plant a rhieni yn parhau i gael profiadau fel hyn.
5. Mae angen normaleiddio a prif-ffrydio argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, gydag ystyriaeth benodol i sicrhau ehangu a chynyddu canran y llefydd Cymraeg o fewn cynlluniau penodol, megis lleoliadau Dechrau'n Deg, i lefelau sydd o leiaf yn gymharus a'r nifer o blant sydd mewn addysg Gymraeg ym mlwyddyn 2 yn yr ysgol Gynradd. Mae gofyn i'r Awdurdodau Lleol ystyried % a nifer y lleoedd ar gael drwy raglen Dechrau'n Deg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.
6. Mae'r Cod ADY yn glir bod angen darparu'r ddarpariaeth ychwanegol yn yr iaith sydd orau i'r plentyn. Fel soniwyd eisoes, gall hyn achosi problem i ddarpariaethau Cymraeg os yw CDU y plentyn yn nodi mai drwy gyfrwng y Saesneg y dylai'r ddarpariaeth ychwanegol fod. Rydym hefyd yn pryderi fod diffyg cynllunio sut bydd plant yn derbyn gwasanaethau neu ofal clinigol pan fo angen trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn parhau i glywed am blant yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg am wahanol gyflyrau.
7. Un o'r materion sy'n rhwym o effeithio darpariaeth ADY mewn lleoliadau gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yw'r argyfwng recriwtio gweithlu ar hyn o bryd. Clywsom gan un Cylch Meithrin yn ddiweddar oedd yn pryderi na fyddent yn llwyddo i benodi cymhorthydd ADY yn sgil derbyn cyllid dwylo ychwanegol gan y sir i gefnogi plentyn ag ADY. Roedd hyn eto'n rhoi pwysau ychwanegol ar ysgwyddau ymarferwyr ac yn debygol iawn o achosi colli nifer pellach o'r gweithlu oherwydd y straen. Mae lleoliadau gofal plant yn barod i dderbyn a chefnogi pob plentyn a'u teuluoedd, ond rhaid sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth i allu darparu'n briodol ar gyfer anghenion y plentyn.

Mudiad Meithrin
16.6.23

**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 2**

Thank you for the opportunity to give evidence about education for disabled children and young people.

I just wanted to follow up and explain a bit about the project I have been leading. The "Rights here, Rights now" Curriculum project has sought to assist education providers with the obligations the Welsh Government has put on the Education sector in promoting the United Nation Convention on the Rights of Disabled People. This is done with a practitioner pack which gives information about the convention, how it applies to the Curriculum for Wales, lesson ideas and material and activities that can be used in lessons.

The aim of the project is to promote the UNCRDP, disability rights and the social model of disability from someone with lived experience to education providers. They are then able to use this knowledge in their lessons to provide learners. The education setting then decides if they want me to go in and do some activities with the learners, this is usually around barriers and solutions after they have had some information in an assembly. I have found that the children and young people respond well to this activity, and it gets them thinking about different impairments not just focusing on one. They are then given the opportunity to ask any questions they may have, this interaction breaks down barriers as often outside the family they have never met a disabled person and two of the disabled children I met with had never met a disabled adult they could identify with (both wheelchair users).

The work I have undertaken in education settings is as follows:

Training has been delivered to three settings successfully, this was delivered to eight practitioners in the following settings:

**Newtown HS (across two campuses) – Powys**

Six participants

**Crossgates PS – Powys**

One participant

**Tre Uchaf Primary School – Swansea**

One participant

The visit to **Tre Uchaf** took place before the end of March, it included an assembly with KS2 and two activities. There were two disabled children in this session that commented on never having met a disabled adult that they could identify with. Approximately 100 children were involved.

**Eirias High School – Conwy**

Training will be delivered to practitioner's face to face at the end of June.

**Ysgol Llannon – Ceredigion**

A whole day was spent a day at **Ysgol Llannon** and had 2 sessions with KS1 and KS2. This was a setting with 2 classes. The morning was for KS1 and the youngest in this class was 4. This session was giving the learners information about disability and rights, some information about technology and then inviting the learners to ask questions. The project officer also showed the learners their car. The second session was with KS2 and followed a similar pattern to the morning session, however it was also followed by an activity on Impairments, barriers and solutions. This activity really gets the learners thinking about multiple impairments.

The following settings were not on the Rights here, Rights now project; however, the project officer visited these establishments and delivered two assemblies, three lessons, one information session and one career fayre:

**Ysgol Bro Gymraeg Morganwyg – Vale of Glamorgan**

The project officer delivered two assemblies with approximately 500 young people in each. The topic of these was about bullying and the effects it has on disabled children and young people.

**Libanus PS – Caerphilly**

Three lessons on how mechanics and technology has helped disabled people, each class had 30 children within. After a talk of approximately 25 minutes the children were given the opportunity to ask questions to the project officer. After the lessons had been delivered the children were invited by the project officer to look at their adapted vehicle and continue to ask questions.

Working with Libanus PS has been extremely successful, since the visit the children have:

- Audited their local town of Blackwood,
- Written to Caerphilly Council on access issues,
- Created a petition for the Senedd requesting that private businesses follow the same access laws as public businesses,
- They are viewing of the Principality Stadium with access in mind – the project officer was invited but cannot go and sent a list of questions to ask.
- The petition was debated at the petitions committee on the 5$^{th}$ of June.

The project officer went back to the setting and attended a career fayre with the learners.

**Cradoc County Primary School – Powys**

A joint assembly with years 4 to 6 on technology, disability and disability rights. This was followed by an activity with year 4 to look at the barriers different impairments could face and to come up with technology solutions. The children were invited to invent something that could be useful for someone with the impairment they were working on. The second session was with years 5&6 who were given the same activity however, they asked the project officer more questions.

Since sitting on the panel, the project officer has been invited to attend the following settings:

**The Bishop of Llandaff CiW High School – Cardiff**

This is a protected characteristics day and the project officer has been invited to attend to give information on disability. There is a strong possibility of being invited back to give more information and facilitate activities with the learners.

## Ysgol Gymraeg Sant Baruc – Vale of Glamorgan

To provide workshops, lived experience and activities to primary school aged learners.

Feedback from practitioners has been extremely positive with the headteacher of Ysgol Llannon feeding back with – "Your presentations and interaction with all the pupils (from four to eleven year olds) were excellent" and that "the staff and I thought that the whole experience was superb as you were very honest and had the kind of personality that made the work very engaging for the pupils".

The work that has been undertaken within education settings has been rewarding and insightful. Rewarding – by seeing how information is processed and used by the children and young people and insightful – in the realisation that a lot needs to be learnt.

There is a need to carry on this project as the benefits to the educators, children and young people are significant. However, unless funding can be secured this project is at risk of being abandoned. The first year was a pilot to assess need, test and refine materials and build networks. The need and desire for this project has been established and overwhelming.

Thank you once again and for taking the time to read this follow up email. Please do get in touch with me if I can be of any further assistance.

Cofion cynnes

Kat Watkins

Swyddog Datblygu CCUHPA/UNCRDP Development Officer

# Eitem 2.3

**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 3**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Jayne Bryant AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

4 Gorffennaf 2023

Annwyl Jayne,

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref

Fel y gwyddoch, cafodd ein Pwyllgor sawl eitem o ohebiaeth mewn perthynas â'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Ceir yn yr atodiad i'r llythyr hwn enghraifft o'r ymateb yr ydym wedi ei anfon at y rhai a ysgrifennodd atom, ar ôl inni drafod y mater hwn yn ein cyfarfod ar 12 Mehefin.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

ATODIAD  [Saesneg yn unig]

Thank you for your e-mail of xx May/June regarding the publication of the Welsh Government's Elective Home Education statutory guidance on 12 May 2023. We considered e-mail correspondence on this matter at our meeting of 12 June 2023.

As you may be aware, one of the functions of the Legislation, Justice and Constitution Committee is to report on subordinate legislation laid before the Senedd by the Welsh Government. In so doing, the Committee's scrutiny is guided by the requirements set out in the Senedd's Standing Orders (specifically Standing Orders 21.2, 21.3 and 21.7).

In accordance with the Standing Orders, we are able to consider any subordinate legislation related to home schooling that is laid before the Senedd. We may also consider any legislative matter of a general nature within or relating to the competence of the Senedd of the Welsh Ministers.

The guidance in question does not constitute subordinate legislation. In addition, I would add that there is no requirement for the guidance to be laid before the Senedd; the only requirement in the *Education Act 1996* is that guidance is published by the Welsh Ministers in such manner as they think fit. They have chosen to do this by publishing the guidance online.

Any decision regarding the lawfulness of the guidance is a matter for the courts.

I understand that the Children, Young People and Education Committee will be writing to the Minister for Education and Welsh Language about the guidance and I have therefore drawn this correspondence to the attention of Jayne Bryant MS, the Chair of that Committee.

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Y Prif Weinidog

6 Gorffennaf 2023

**Penodiadau gweinidogol**

Annwyl Brif Weinidog,

Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawiad cyn penodi'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, a hynny ar gyfer swydd Prif Weithredwr y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd. Nid oedd hon yn un o'r penodiadau cyhoeddus a restrir yn y cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Fodd bynnag, cynhaliwyd gwrandawiad cyn penodi yn dilyn ymrwymiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ystod gwaith craffu Cyfnod 2 a 3 o'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roeddem yn gwerthfawrogi ymrwymiadau'r Gweinidog a'r cyfle i ni fod yn rhan o'r broses benodi hon.

Yn fwy cyffredinol, ers dechrau'r Senedd hon rydym wedi tanlinellu'n gyson ein pryderon ynghylch rôl gyfyngedig pwyllgorau'r Senedd yn y broses penodiadau cyhoeddus, a chyfyngiadau'r gwrandawiadau cyn penodi yn benodol. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn ein gohebiaeth yn ddiweddar â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus.

Rydym yn ysgrifennu i ofyn am ragor o wybodaeth am benodiadau gweinidogol. Roedd hwn yn benodiad gweinidogol nad yw pwyllgorau'r Senedd fel arfer yn rhan ohono. Credwn fod ein rhan ni yn y broses benodi wedi helpu i sicrhau bod rhagor o wybodaeth am y broses recriwtio ar gael i'r cyhoedd. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun y rôl hon oherwydd y penderfyniad i benodi'n uniongyrchol ar ôl i'r broses recriwtio cyhoeddus fethu.

O ganlyniad, hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd mewn perthynas â phenodiadau gweinidogol. Byddem felly, yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth am y dulliau gwahanol a ddefnyddiwyd ar gyfer penodiadau o'r fath. A fyddech cystal â rhoi cyfanswm y penodiadau gweinidogol a wnaed, gan nodi'r canlynol:

- y portffolio gweinidogol;



Senedd Cymru
Welsh Parliament

- a gynhaliwyd proses recriwtio agored mewn perthynas â'r penodiad?
- a oedd y broses recriwtio agored yn llwyddiannus (os yw'n berthnasol)?
- a oedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol?
- y rheswm pam roedd y penodiad yn benodiad uniongyrchol (os yw'n berthnasol).

A allwch chi hefyd roi manylion yr holl swyddi y gwnaed penodiad uniongyrchol iddynt, ni waeth pam y gwnaed y penodiad uniongyrchol. Hoffem y data ar gyfer y pum mlynedd diwethaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o ystyried ymchwiliad presennol y Pwyllgor hwnnw i benodiadau cyhoeddus.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 14 Medi 2023.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Cc: Mark Isherwood, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 2.5

**CYPE(6)-21-23 – Papur i'w nodi 5**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

6 Gorffennaf 2023

**Myfyrwyr rhyngwladol**

Annwyl Jeremy,

Fel y gwyddoch, yn ystod ein gwaith diweddar a edrychodd ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, fe wnaethom godi materion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Roeddem yn falch o weld yr argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru.

Yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin, cododd Buffy Williams AS, sydd hefyd yn aelod o'r Pwyllgor, y ffaith bod gennym rai pryderon ehangach am y cymorth i fyfyrwyr rhyngwladol. Mae materion tebyg hefyd wedi dod i'r amlwg drwy eu gwaith achos aelodau eraill o'r Pwyllgor.

Yn achos rhai myfyrwyr rhyngwladol, rydym yn pryderu bod diffyg cysylltiad sylweddol rhwng yr hyn sydd efallai'n cael ei addo cyn iddynt symud i Gymru a'r hyn sydd ar gael mewn gwirionedd ar ôl iddynt gyrraedd. Yr ydym yn arbennig o bryderus ynghylch yr addewidion a wneir mewn perthynas â llety. Er ein bod yn deall bod sefydliadau addysg uwch yn sefydliadau ymreolaethol, a allwch amlinellu pa gamau, os o gwbl, y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hyn?

Gall y rhai sy'n dod gyda'u teuluoedd wynebu heriau ychwanegol. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn cyfyngu ar y gallu i ddod â dibynyddion i'r myfyrwyr hynny sydd ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr a'u teuluoedd ar hyn o bryd yn wynebu diymfadedd yng Nghymru, ac mae eu statws mewnfudo'n golygu nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus.

Rydym yn hynod bryderus am yr effaith y gallai'r amddifadedd hwn ei chael ar ddibynyddion y myfyrwyr, yn enwedig eu plant. Rydym yn deall bod arferion yn gallu amrywio rhwng awdurdodau lleol o ran a all y plant hyn gael mynediad at gymorth arall megis prydau ysgol am ddim. Er inni gydnabod bod Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno darpariaeth prydau ysgol am ddim cyffredinol mewn ysgolion cynradd, nid yw'r cynnig hwn eto ar gael ym mhob blwyddyn gynradd ac nid yw'n

cynnwys plant a phobl ifanc mewn ysgolion uwchradd. Mae hyn yn golygu bod plant a phobl ifanc yng Nghymru heb fynediad at y cymorth mawr ei angen hwn. Mae'n bosibl na fydd gan y teuluoedd hyn unrhyw gymorth y tu allan i fanciau bwyd a chymorth gwirfoddol arall, felly gallai prydau ysgol am ddim wneud gwahaniaeth sylweddol iddynt. Beth yw eich barn ynghylch sicrhau bod gan y garfan hon o blant fynediad at brydau ysgol am ddim ar gael ledled Cymru? Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn darparu'r cymorth hwn?

A allwch amlinellu'r camau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod y myfyrwyr hyn a'u teuluoedd yn gallu cael mynediad at ryw lefel o gymorth ariannol i sicrhau nad ydynt yn byw mewn llety is-safonol nac yn wynebu tlodi bwyd a thanwydd, a'u bod yn gallu manteisio'n llawn ar y cyfleoedd a ddylai fod ar gael iddynt drwy astudio yng Nghymru?

Byddwn yn ysgrifennu at bob prifysgol yng Nghymru i dynnu sylw at y materion hyn, ac yn arbennig y cymorth y gallant ei roi i fyfyrwyr rhyngwladol. Bydd copi o'r ohebiaeth hon yn cael ei anfon atoch chi.

Rydym yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol oherwydd ei chyfrifoldebau ar gyfer lliniaru tlodi plant.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 14 Medi 2023.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Copïau at: Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

# Eitem 2.6

**CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 6**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Is-ganghellor,
Prifysgolion Cymreig

7 Gorffennaf 2023

**Myfyrwyr rhyngwladol**

Yn ystod ein gwaith diweddar ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, clywsom bryderon am y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr rhyngwladol. Clywsom hyn yn uniongyrchol gan fyfyrwyr rhyngwladol, a chan amrywiaeth o sefydliadau. O ganlyniad, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn, ac rydym yn falch o ddweud i Lywodraeth Cymru ei dderbyn:

> *"Argymhelliad 2. Mae angen i Lywodraeth Cymru, CCAUC, y Comisiwn newydd, darparwyr addysg uwch a chynrychiolwyr myfyrwyr weithio gyda'i gilydd i osod lefel sylfaenol o ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol, gan ystyried anghenion penodol y gwahanol grwpiau sy'n ffurfio'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol. Gall hyn olygu datblygu rhwydweithiau cymheiriaid penodol ar gyfer grwpiau myfyrwyr rhyngwladol. Ni ddylai'r lefel sylfaenol hon o ddarpariaeth fod yn rhy ragnodol, gan y bydd angen i bob darparwr addasu ei ddarpariaeth i ddiwallu anghenion penodol ei fyfyrwyr, ac ystyried amgylchiadau ei sefydliad ei hun, ond dylai sicrhau bod lefel ofynnol glir o gymorth y gall pob myfyriwr rhyngwladol ledled Cymru wybod y gall gael gafael arni. Dylid hyrwyddo'r fframwaith hwn mewn ffyrdd a fydd yn cyrraedd gwahanol rannau o'r gymuned myfyrwyr rhyngwladol, o'r cam cyn ymgeisio i'r cyfnod ar ôl graddio."*

Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol y gall myfyrwyr rhyngwladol wynebu heriau ehangach. Yn ystod y ddadl ar ein hadroddiad yn y Cyfarfod Llawn, gwnaeth Buffy Williams AS, sy'n aelod o'n Pwyllgor, amlygu rhai o'r materion hyn. Mae'r materion a godwyd ganddi yn cyd-fynd â straeon y mae aelodau eraill o'r Pwyllgor wedi eu clywed yn eu gwaith achos.

Un o'r pryderon allweddol yw'r diffyg cysylltiad rhwng yr hyn sydd efallai'n cael ei addo i fyfyrwyr cyn iddynt symud i Gymru a'r hyn sydd ar gael mewn gwirionedd ar ôl iddynt gyrraedd. Yna bydd yn rhaid iddynt sicrhau eu llety eu hunain, gan wynebu trafferth yn aml i ddod o hyd i lety fforddiadwy ac addas. I'r myfyrwyr hynny sy'n dod â'u teuluoedd, gall yr heriau hyn fod yn fwy sylweddol fyth. Nid oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus ac ni allant wneud gwaith cyflogedig. Gallant hwy a'u teuluoedd gael eu hunain yn ddiymgeledd ac yn dibynnu yn aml ar fanciau bwyd a chymorth gwirfoddol arall.

Hoffem weld prifysgolion yng Nghymru'n gwneud mwy i sicrhau bod pob myfyriwr rhyngwladol sy'n ystyried astudio yng Nghymru yn gwybod pa gymorth y gall ei ddisgwyl gan y sefydliad, a goblygiadau ariannol ei astudiaethau. Gwyddom fod astudio yng Nghymru'n beth cadarnhaol ac yn gyfle sy'n newid bywyd llawer o fyfyrwyr, ac rydym am sicrhau mai felly y bydd hi i bob myfyriwr.

Mae materion a heriau ychwanegol hefyd yn wynebu'r myfyrwyr hynny sy'n dod â'u teuluoedd. Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn ddiweddar y bydd yn cyfyngu ar y gallu i ddod â dibynyddion i'r myfyrwyr hynny sydd ar raglenni ymchwil ôl-raddedig yn unig. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod rhai myfyrwyr a'u teuluoedd ar hyn o bryd yn wynebu diymfadedd yng Nghymru, ac mae eu statws mewnfudo'n golygu nad oes ganddynt unrhyw hawl i arian cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig bod prifysgolion yn darparu digon o gymorth, arweiniad a chyngor i sicrhau bod myfyrwyr a'u teuluoedd yn gallu gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael o astudio yng Nghymru.

Rydym yn ysgrifennu at bob prifysgol yng Nghymru i sicrhau eich bod yn ymwybodol o'n pryderon ac i ofyn i chi wneud popeth o fewn eich gallu i sicrhau bod myfyrwyr rhyngwladol yn cael y wybodaeth gywir cyn gwneud cais, a chymorth amserol ac effeithiol ar ôl iddynt symud i Gymru.

Rydym hefyd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i godi ein pryderon. Mae copi o'r llythyr hwnnw ynghlwm.

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Wedi'i hatodi: Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**CYPE(6)-21-23 - Papur i'w nodi 7**

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS,

Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

7 Gorffennaf 2023

Amserlen Ddrafft Gyllideb 2024-25

Annwyl Rebecca,

Nododd y Pwyllgor eich amserlen arfaethedig ar gyfer cyllideb 2024-25 yn ei gyfarfod ar 6 Gorffennaf 2023.

Rydym o'r farn bod y dull hwn yn hynod siomedig: Fel Pwyllgor rydym wedi galw'n rheolaidd am gael digon o amser i graffu ar gynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru, ac i hynny fod yn unol â Phrotocol Proses y Gyllideb ('y Protocol'), y cytunwyd arno ar sail drawsbleidiol yn 2017.

Rydym wedi ysgrifennu atoch sawl gwaith ynghylch yr anawsterau ymarferol y mae byrhau amserlenni yn eu peri i Bwyllgorau wrth gyflawni eu swyddogaethau craffu, yn ogystal â'r pwysau y mae'n ei roi ar randdeiliaid sy'n dymuno cyflwyno tystiolaeth ac ymgysylltu â'n gwaith, yn enwedig pan fydd tair wythnos o'r cyfnod hwnnw yn disgyn dros doriad y Nadolig.

Yn fwyaf diweddar, ysgrifennais atoch ar 23 Mehefin 2023 yn nodi'r pryderon a fynegwyd gan y mwyafrif helaeth o Gadeiryddion Pwyllgorau ynghylch amseroldeb y broses gyllidebol a'r diffyg amser sydd ar gael ar gyfer craffu priodol. Rydym felly wedi'n digalonni na chafodd y safbwyntiau hyn eu hadlewyrchu pan gynigiwyd yr amserlen hon. Ar ben hynny, er ein bod wedi trafod yn gryno amserlen y gyllideb tua diwedd ein cyfarfod ar 20 Mehefin, ni wnaethom drafod dyddiadau penodol, fel y nodwyd yn eich llythyr, ac nid oedd cyfle i mi godi pryderon o ystyried y diffyg gwybodaeth a rannwyd bryd hynny ynghylch eich cynigion.

Rhesymau annigonol dros oedi

Mae paragraff 11 o'r Protocol yn nodi "ni fydd cyllideb/blwyddyn ariannol yn "arferol" pan fydd ansicrwydd sylweddol o ran sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol". Mae'n ychwanegu:

> *"Er nad yw hon yn rhestr hollgynhwysol, byddai enghreifftiau'n cynnwys pan nad yw Llywodraeth y DU wedi darparu ffigurau'r gyllideb ar gyfer y dyfodol; ceir digwyddiad cyllidol y DU fel yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant neu Gyllideb Frys; neu newid sylweddol yn y rhagolygon cyllidol cyffredinol fel sioc economaidd neu newidiadau'n effeithio ar bolisi treth y DU."*

Ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf, rydym wedi derbyn y dadleuon bod lefelau sylweddol o ansicrwydd cyllido yn arwain at oedi cyn gosod y gyllideb ddrafft. Er ein bod yn cydnabod nad yw Canghellor y Trysorlys wedi cyhoeddi dyddiad y digwyddiad cyllidol yn yr hydref eto, nid ydym yn ystyried hyn yn rheswm cryf ynddo'i hun i oedi rhag cyhoeddi cynigion cyllidebol Llywodraeth Cymru ac nid ydym yn cytuno mai dyma'r unig ddewis doeth sydd ar gael i chi.

Fel y gwnaethoch nodi, mae dyraniadau cyllidebol dangosol eisoes ar gael i Lywodraeth Cymru, ac er ein bod yn derbyn bod pwysau chwyddiant yn parhau'n uchel, nid ydynt, yn anffodus, yn syndod ac nid ydynt, yn ein barn ni, yn creu "llawer o ansicrwydd" yn eich sefyllfa gyllido a bod angen gwyro oddi wrth y broses 'arferol' a amlinellir ym mhrotocol y gyllideb.

Nid ydym ychwaith yn derbyn bod yr oedi yn gyfan gwbl o ganlyniad i faterion sydd y tu allan i'ch rheolaeth. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am y gyllideb, mae gennych ddisgresiwn sylweddol i benderfynu pryd y cyhoeddir cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru sydd, yn eu tro, yn pennu faint o amser sydd gan Bwyllgorau'r Senedd i wneud y gwaith craffu gofynnol.

Fel y gwyddoch, dyma'r bumed flwyddyn yn olynol nad yw'r broses dau gyfnod a nodir yn y Protocol wedi'i dilyn ac mae'r cais i ohirio proses y gyllideb eto eleni, yn awgrymu mai prin yw'r amgylchiadau y gellid eu hystyried yn flwyddyn "arferol".

Bwriad y protocol oedd caniatáu i'r Pwyllgor Cyllid ymgymryd â rôl oruchwylio drwy ganiatáu rhagor o amser i bwyllgorau polisi wneud gwaith craffu a'u galluogi i gymryd rhagor o dystiolaeth gan randdeiliaid.

Mae eich parodrwydd i osgoi dilyn y broses hon unwaith eto yn cwestiynu eich ymrwymiad i'r arferion hyn y cytunwyd arnynt, o ystyried nad yw amseriad craffu ar y gyllideb yn y blynyddoedd diwethaf wedi gwneud hyn yn bosibl.

## Diffyg ymgynghori

Rydym hefyd yn nodi eich bod wedi ymgynghori â’r Pwyllgor ar eich penderfyniad i ohirio cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2023-24 y llynedd. Mae’n resyn felly na chafodd dull tebyg ei fabwysiadu eto.

Mewn blynyddoedd pan fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gohirio cyhoeddi’r Gyllideb Ddrafft ac yn osgoi’r broses dau gyfnod a amlinellir yn y Protocol, mae’r Pwyllgor yn disgwyl trafodaeth aeddfed ac ymgynghoriad ystyrlon ar faterion o’r fath ac mae peidio â gwneud hynny yn bwrw amheuaeth ynghylch yr ymrwymiadau a wnaethoch yn flaenorol i weithio’n adeiladol ac mewn partneriaeth i wella ein prosesau’r gyllideb.

## Y camau nesaf

Rwy’n croesawu eich parodrwydd i ailedrych ar ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft pe bai cyhoeddiad y Canghellor ynghylch dyddiadau digwyddiad cyllidol yr hydref yn ddigon cynnar i ganiatáu amser ychwanegol ar gyfer ei pharatoi a chraffu arni.

Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn ac yn gobeithio y bydd eglurder pellach ynghylch amseru'r materion hyn yn arwain at ragor o amser i graffu ar eich cynigion cyllideb cyn gynted â phosibl yn nhymor yr hydref.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Trefnydd a Chadeiryddion Pwyllgorau’r Senedd, o ystyried ei effaith ar eu rhaglenni gwaith ac yn sgil y pryderon a’r sylwadau a fynegwyd yn flaenorol ar y materion hyn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths MS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon